**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/0263/18

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

15 Mai 2018

Dear Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Ebrill ynglŷn â Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018.

Rydych yn gofyn am esboniad o'r swm y mae cyflogwyr i'w ddidynnu ar gyfer llety o gyflogau gweithwyr amaethyddol, o dan erthygl 15(1) a (2) o'r Gorchymyn. Sylwaf eich bod wedi gweld adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a oedd yn cyfeirio at faterion cyffelyb, ac ymateb y Llywodraeth i'r pwyntiau hynny.

Yn fyr, didynnir £1.50 yr wythnos pan fo tŷ yn cael ei ddarparu, a didynnir £4.82 y dydd pan fo llety arall yn cael ei ddarparu – yn amodol ar nifer yr oriau a weithir. Rwy'n gwerthfawrogi bod angen i gyflogwyr a gweithwyr fel ei gilydd fod yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol a byddaf yn sicrhau bod unrhyw ganllawiau ar y Gorchymyn yn cynnwys y ddarpariaeth hon.

Roedd ymateb y Llywodraeth i'r Pwyllgor hefyd yn ymdrin â'ch cwestiwn ynghylch y ffaith fod dyddiad dod i rym y Gorchymyn yn agos at ei ddyddiad gosod. O ganlyniad i'r cyhoeddiad ddiwedd mis Tachwedd y byddai cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn uwch na'r disgwyl yn 2018/19, roedd angen ailystyried ac ailgyflwyno'r drafft i Lywodraeth Cymru, i'w ystyried. Rwy'n fodlon fod popeth wedi ei wneud i ddiwallu cais y diwydiant y byddai'n dod i rym ar 1 Ebrill, er mwyn ei helpu i gynllunio busnes a chyd-fynd â chyfraddau isafswm cyflog perthnasol eraill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n deall fod y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth yn ystyried strwythur cyflogau amaethyddol ar hyn o bryd, a bod lwfans llety i'w gynnwys fel rhan o'r ystyriaeth honno. Diolch am roi gwybod imi eich bod yn bwriadu cynnal adolygiad byr yn y maes hwn y flwyddyn nesaf.

Regards

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs